



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 14 Mai 2010
Tabled on 14 May 2010

Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)
Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure

Dafydd Elis -Thomas

1

Section 3A, page 3, line 2, leave out 'and must do so as soon as possible after the resolution is passed'.

Adran 3A, tudalen 3, llinell 2, gadewch allan 'a rhaid iddo wneud hynny mor fuan â phosibl ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud'.

Dafydd Elis -Thomas

2

Section 3A, page 3, after line 4, insert—

'(4) The Counsel General must, upon being notified in writing by the Presiding Officer that the Assembly has passed a resolution under subsection (1)—

(a) exercise the power conferred by subsection (2), and

(b) do so as soon as is reasonably practicable.'

Adran 3A, tudalen 3, ar ôl llinell 5, ychwanegwch—

'(4) Rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol, pan y'i hysbysir yn ysgrifenedig gan y Llywydd bod y Cynulliad wedi gwneud penderfyniad o dan is-adran (1)—

(a) arfer y pŵer a roddir iddo gan is-adran (2), a

(b) gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.'

Dafydd Elis -Thomas

3

Section 10, page 5, line 11, after 'effect', insert ', whenever made,'.

Adran 10, tudalen 5, llinell 12, ar ôl 'yn effeithiol', ychwanegwch ', pryd bynnag y'i gwnaed,'.

Dafydd Elis -Thomas

4

Section 10, page 5, line 14, after 'effect', insert ', whenever made,'.

Adran 10, tudalen 5, llinell 15, ar ôl 'yn effeithiol', ychwanegwch ', pryd bynnag y'i gwnaed,'.

Dafydd Elis -Thomas

5

Section 10, page 5, line 18, after 'effect', insert 'but if it fails to do so the Assembly Commission must—

- (a) until such determinations are made, continue to make payments in accordance with the determinations which had effect in relation to that preceding term of the Assembly, and
- (b) when such determinations have been made, adjust any subsequent payments so as to make good any under-payment or recover any over-payment, as the case may be'.

Adran 10, tudalen 5, llinell 19, ar ôl 'perthynas ag ef', ychwanegwch ', ond os yw'n methu â gwneud hynny, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad—

- (a) nes bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud, barhau i wneud taliadau yn unol â'r penderfyniadau a gafodd effaith mewn perthynas â'r tymor blaenorol hwnnw o'r Cynulliad, a
- (b) pan gaiff penderfyniadau o'r fath eu gwneud, addasu unrhyw daliadau dilynol i wneud iawn am unrhyw dandaliadau neu adennill unrhyw ordaliadau, yn ôl fel y digwydd'.

Dafydd Elis -Thomas

6

Section 11, page 5, line 24, leave out 'amend' and insert 'make any modification to'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 27, gadewch allan 'ddiwygio'r' a rhowch yn ei le 'wneud unrhyw addasiad i'r'.

Dafydd Elis -Thomas

7

Section 11, page 5, after line 26, insert—

- '(3) Subsection (2) does not apply if the Board is of the opinion that there are exceptional circumstances which make it just and reasonable that the restrictions imposed by subsection (2) should not apply.

- (4) If the Board forms an opinion of the kind referred to in subsection (3) it must state in writing its reasons for having done so, and communicate that statement to the Assembly Commission at the same time as the determination to which it relates.
- (5) The Assembly Commission must lay before the Assembly any statement communicated to it under subsection (4) at the same time as it lays before the Assembly the determination to which it relates.’.

Adran 11, tudalen 5, ar ôl llinell 29, ychwanegwch—

- ‘(3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw’r Bwrdd o’r farn bod yna amgylchiadau eithriadol sy’n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i’r cyfyngiad a osodir gan is-adran (2) beidio â bod yn gymwys.
- (4) Os bydd y Bwrdd yn ffurfio barn o’r math y cyfeirir ati yn is-adran (3) rhaid iddo ddatgan mewn ysgrifen ei resymau dros fod wedi gwneud hynny, gan gyfleu’r datganiad hwnnw i Gomisiwn y Cynulliad yr un pryd â’r penderfyniad y mae’n ymwneud ag ef.
- (5) Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad osod gerbron y Cynulliad unrhyw ddatganiad a gyflëir iddo o dan is-adran (4) yr un pryd ag y bydd yn gosod gerbron y Cynulliad y penderfyniad y mae’n ymwneud ag ef.’.

Dafydd Elis -Thomas

8

Section 16, page 6, line 29, after ‘3’, insert ‘,3A’.

Adran 16, tudalen 6, llinell 30, ar ôl ‘3’, ychwanegwch ‘, 3A’.

Dafydd Elis -Thomas

9

Section 16, page 6, line 29, after ‘9’, insert ‘,13A’.

Adran 16, tudalen 6, llinell 30, ar ôl ‘9’, ychwanegwch ‘, 13A’.

Dafydd Elis -Thomas

10

Schedule 1, page 8, line 6, leave out ‘a person holding the office of’ and insert ‘the’.

Atodlen 1, tudalen 8, llinell 6, gadewch allan ‘person sy’n dal swydd’ a rhowch yn ei le ‘y’.

Dafydd Elis -Thomas

11

Schedule 2, page 9, after line 5, insert—

- ‘() Those arrangements may—
 - (a) be revised from time to time, and
 - (b) make different provision for different appointments and for appointments made under different circumstances.’.

Atodlen 2, tudalen 9, ar ôl llinell 5, ychwanegwch—

- ‘() Caiff y trefniadau hynny—
 - (a) eu diwygio o dro i dro, a

- (b) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer penodiadau gwahanol a phenodiadau a wneir mewn amgylchiadau gwahanol.’.

Dafydd Elis -Thomas

12

Schedule 2, page 9, line 12, leave out ‘those’ and insert ‘the’.

Atodlen 2, tudalen 9, llinell 12, gadewch allan ‘hynny’.

Dafydd Elis -Thomas

13

Schedule 2, page 9, line 12, after ‘arrangements’, insert ‘in relation to a particular appointment’.

Atodlen 2, tudalen 9, llinell 12, ar ôl ‘trefniadau’, ychwanegwch ‘mewn perthynas â phenodiad penodol’.

Dafydd Elis -Thomas

14

Schedule 2, page 9, line 13, after ‘website’, insert ‘and continue to be so published whilst the process of selecting a person for that appointment is taking place’.

Atodlen 2, tudalen 9, llinell 13, ar ôl ‘gyntaf’, ychwanegwch ‘a’u bod yn parhau i gael eu cyhoeddi tra bo’r broses o ddewis person i’w benodi i’r swydd yn mynd rhagddi’.

Dafydd Elis -Thomas

15

Schedule 2, page 9, line 16, leave out ‘unless it appears to the Assembly Commission that the person in question is disqualified from membership of the Board under section 3’.

Atodlen 2, tudalen 9, llinell 16, gadewch allan ‘oni bai ei bod yn ymddangos i Gomisiwn y Cynulliad fod y person o dan sylw wedi’i anghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Bwrdd o dan adran 3’.

Dafydd Elis -Thomas

16

Schedule 2, page 9, after line 17, insert—

‘(4) Paragraph 3 does not apply if it appears to the Assembly Commission that the person in question is disqualified from membership of the Board under section 3.’.

Atodlen 2, tudalen 9, ar ôl llinell 17, ychwanegwch—

‘(4) Nid yw paragraff 3 yn gymwys os yw’n ymddangos i Gomisiwn y Cynulliad fod y person o dan sylw wedi’i anghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Bwrdd o dan adran 3.’.